Enw




DARLLENWCH
Daniel 2: 48,49 a
3: 1-30



ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 3: 17

*Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 2 Y Ffwrnais Danllyd




Un diwrnod, gwnaeth y Brenin Nebuchadnesar ddelw aur. Roedd yn 90 troedfedd o uchder ac yn naw troedfedd o led! Yna, gorchmynnodd i'w holl dywysogion a swyddogion pwysig, yn cynnwys Sadrach, Mesach ac Abednego i ddod i seremoni arbennig.
Daeth y bobl i gyd a cherddorfa'r brenin at y ddelw fawr. Pan fyddai'r miwsig yn dechrau, byddai'n rhaid iddyn nhw blygu ac addoli'r ddelw. Os na fyddent yn gwneud hynny, byddent yn cael eu taflu i'r ffwrnais danllyd.

**C Rhowch gylch o gwmpas un gair i ddangos o beth roedd y ddelw wedi'i gwneud.**

2

Carreg plastig arian aur pren



Pan glywodd y bobl y miwsig, fe wnaeth pawb ond Sadrach, Mesach ac Abednego blygu ac addoli'r ddelw. Roedden nhw'n dal ar eu traed! Roedden nhw'n gwybod nad oedden nhw i fod i addoli duwiau ffug a doedden nhw ddim eisiau bod yn anufudd i Dduw.

**C Ysgrifennwch enwau'r tri Hebread oedd yn gwrthod addoli'r ddelw.**

.................................. .................................. ..................................

6

Pan glywodd y brenin beth oedd wedi digwydd, roedd yn grac iawn a gofynnodd am gael gweld yr Hebreaid ifanc. Gofynnodd a oedd yn wir eu bod nhw wedi gwrthod ufuddhau iddo.
Dywedodd ei bod yn rhaid iddynt blygu ac addoli'r ddelw neu byddent yn cael eu taflu i mewn i'r ffwrnais danllyd!

Atebodd y tri dyn a dweud:

"Y mae'r

# Duw a addolwn ni yn alluog i'n hachub

o ganol y ffwrnais danllyd"

4

Lliwiwch y geiriau.

Gorchmynnodd y brenin i'r ffwrnais gael ei phoethi saith gwaith yn boethach nag arfer ag i'r tri dyn gael eu taflu i mewn! Yn sydyn, neidiodd y brenin mewn syndod! Nid tri dyn a welai ond pedwar dyn yn cerdded yn y tân, heb niwed! Roedd Duw'n gwarchod ei weision! Pan ddaethant allan, doedd dim hyd yn oed aroglau mwg ar eu dillad!



Dechreuodd y brenin foli Duw. Dywedodd fod Duw wedi achub y dynion am eu bod wedi ymddiried ynddo. Dywedodd y brenin nad oedd neb i ddweud dim byd cas am Dduw. Rhoddodd swyddi pwysig i Sadrach, Mesach ac Abednego. Unwaith eto, roedd Duw wedi helpu pobl oedd yn ymddiried ynddo. Mae'n gwneud yr un peth heddiw!


## C Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau isod yn y GRID GEIRIAU.

I Lawr
1. Enw un o'r dynion a daflwyd i'r ffwrnais

Ar Draws
2. Sawl gwaith poethach nag arfer oedd y ffwrnais?

3. Sawl dyn oedd y brenin yn eu gweld?

4. Enw un arall o'r dynion ifanc?




8

cyfanswm